**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: LF CS 0929 14

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Medi 2014

Annwyl Jocelyn

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin 2014, i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd, ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol ac yn ateb cwestiynau penodol y Pwyllgor.

Yn gywir

Carl Sargeant

**Carl Sargeant AC/AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

# Atodiad A

## Effaith Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn i mi roi manylion ynghylch a fyddai gofyn i awdurdodau lleol sydd wedi uno gynhyrchu asesiadau a chynlluniau llesiant lleol newydd a sefydlu Pwyllgorau Craffu newydd, ac a wnaed unrhyw asesiad o'r arbedion posibl.

Bydd y cylch cynllunio ar gyfer cynhyrchu asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol yn gysylltiedig â'r cylch etholiadol. Mae'r Bil yn dweud bod rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynhyrchu ei gynllun llesiant lleol cyntaf cyn pen blwyddyn ar ôl etholiad cyffredin dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd asesiad llesiant lleol yn cael ei gyflawni a'i gyhoeddi flwyddyn cyn hynny (sef ar adeg yr etholiadau i bob pwrpas).

Nid yw'r amserlen ar gyfer unrhyw uno posibl a'r etholiadau o ganlyniad wedi'i chadarnhau hyd yma, er bod y cerrig milltir tebygol wedi'u nodi yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol* ac yn cael eu defnyddio isod at ddibenion dangosol. Byddem yn disgwyl gweld asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol yn cael eu cynhyrchu, gan ddechrau ar y broses gyda'r etholiadau yn unol â'r cylch cynllunio yn y Bil, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae'r awdurdodau lleol yn uno. Er enghraifft, byddai disgwyl i'r awdurdodau lleol sydd heb newid yn sgil y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol ac sy'n cynnal etholiadau yn 2017 gyhoeddi asesiad llesiant lleol ym mis Ebrill 2017, a chynhyrchu cynllun llesiant lleol erbyn diwedd mis Ebrill 2018.

Mae'r Bil yn gadael i awdurdodau lleol benderfynu pa bwyllgor trosolwg a chraffu i'w bennu, os oes mwy nag un, er mwyn adolygu a chraffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Felly mae'n bosibl na fydd angen pwyllgor "newydd".

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r costau perthnasol wrth baratoi a diweddaru asesiadau llesiant lleol, paratoi cynlluniau llesiant lleol, a chraffu dan "Opsiwn 2: Deddfu i ddiwygio cynllunio cymunedol integredig". Y dull gweithredu safonol wrth ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw adlewyrchu newidiadau polisi sydd wedi'u cadarnhau yn unig. Gan nad yw'r strwythur diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i gadarnhau eto, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil wedi'i seilio ar y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, sef 19 o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn cynhyrchu 21 asesiad o'r anghenion a chynllun.

Seiliwyd asesiad dangosol o arbedion posibl ar gynigion ar gyfer uno strategol a osodwyd yn *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru*, sy'n ffafrio "Opsiwn 1" o 12 awdurdod lleol.

Gan ddefnyddio'r amcangyfrif o'r costau a osodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, roedd yr arbedion posibl o nifer llai o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynhyrchu nifer llai o asesiadau a chynlluniau hyd at £496,800 o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Fodd bynnag, byddai hyn yn dilyn y rhagdybiaeth bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud y gwaith hwn o fewn y costau a amcangyfrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bwrdd unigol. Mae'n debygol y bydd uno awdurdodau lleol i greu ardaloedd mwy yn golygu bod angen mwy o adnoddau i gynhyrchu'r asesiadau a'r cynlluniau, felly mae'n bosibl y byddai'r arbedion yn llai. Os ydym yn amcangyfrif y bydd arbedion effeithlonrwydd yn golygu bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, mwy yn ysgwyddo 75% o gostau cyfunol y ddau Fwrdd a oedd yn weithredol cyn yr uno, byddai'r arbedion oddeutu £248,400.

Byddai'r trefniadau craffu'n arwain at arbediad hyd at tua £90,000 y flwyddyn.

| | Y sefyllfa bresennol (cynhyrchu 21 asesiad a chynllun) | Nifer llai o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (cynhyrchu 12 asesiad a chynllun) | Uchafswm yr arbedion (os bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, unedig yn gweithredu yn ôl amcangyfrifon costau ar gyfer un Bwrdd yn yr Astudiaeth Effaith Rheoleiddiol). | Isafswm yr arbedion (os bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig yn ysgwyddo 75% o gostau cyfunol dau Fwrdd). |
|---|---|---|---|---|
| Asesiad llesiant (Amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn £26,800 fesul Bwrdd) | £562,800 | £321,600 | £241,200 | £120,600 |
| Cynlluniau llesiant lleol (Amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn £28,400 fesul Bwrdd) | £596,400 | £340,800 | £255,600 | £127,800 |
| Craffu (Amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn £9,000 fesul Bwrdd) | (22) £198,000 | (12) £108,000 | £90,000 (y flwyddyn) | £90,000 (y flwyddyn) |

*Seiliwyd y cyfrifon hyn ar y rhagdybiaeth y byddai'r drefn bresennol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol yn parhau, hy 19 o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn weithredol, ond Gwynedd ac Ynys Môn yn unig yn cynhyrchu asesiadau a chynlluniau ar y cyd.*

*Hyd yn oed lle mae Byrddau Gwasanaethau Lleol ar y cyd, rhagdybir bod craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol.*

**Costau i gyrff cyhoeddus a enwir**

Dan y pennawd hwn, gofynnoch i mi ddarparu tystiolaeth ynghylch unrhyw drafodaethau gyda'r cyrff cyhoeddus a enwir i gadarnhau'r ffigurau hyn, er mwyn

gweld os ydynt yn realistig yn eu tyb hwy, ac a fydd y costau'n arwain at yr angen i aildrefnu blaenoriaethau a thynnu oddi wrth adnoddau'r rheng flaen.

Mae'n bwysig pwysleisio y bydd y Bil yn effeithio ar sut mae cyrff cyhoeddus a enwir yn gosod eu hamcanion llesiant, a natur yr amcanion llesiant hynny. Bydd yn effeithio hefyd ar eu dulliau o gyflawni'r amcanion llesiant hynny, a'u ffordd o ddyrannu adnoddau. O ganlyniad, bydd y Bil yn dylanwadu ar ddulliau gweithredu'r sefydliad cyfan. Yn bwysicaf oll, nid rhywbeth ychwanegol fydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ond elfen sylfaenol i'r hyn y mae'r sefydliadau yn ceisio'i gyflawni a'u dull o weithredu.

Mae'r holl sefydliadau sy'n dod o dan ddarpariaethau'r Bil eisoes wedi gosod systemau i gyflawni'r dyletswyddau yn y Bil, gan gynnwys cyhoeddi amcanion corfforaethol ac adrodd yn flynyddol ar eu gwaith, felly nid oes disgwyl costau ychwanegol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth.

Roedd y gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys trafodaethau a gafwyd yn ystod saith o ddigwyddiadau dan arweiniad PwC, gyda dewis o randdeiliaid yn edrych ar effaith weinyddol bosibl y Bil. Y rhanddeiliaid hynny oedd:

Cyngor a Dinas Abertawe
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Sir Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Caerdydd
Llywodraeth Cymru

Gan ystyried y cyfyngiadau amser, nid oedd yn bosibl profi'r ffigurau terfynol gyda'r cyrff cyn dechrau ar y broses graffu. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thri ar ddeg o gyrff cyhoeddus fel rhan o'n gwaith i annog mabwysiadu darpariaethau'r Bil yn gynnar.

**Ffioedd Archwilio ychwanegol.**

Dan y pennawd hwn, gofynnoch am fanylion ynghylch costau ychwanegol y gellid disgwyl i gyrff cyhoeddus a enwir eu talu i archwilio'u cyfrifon.

Swyddfa Archwilio Cymru ddylai osod cynllun mewn perthynas â chodi ffioedd i archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus, ac fe fyddai'n haws i’r Swyddfa honno ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae lefel y ffioedd hynny wedi'i gosod gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn ymgynghoriad â rhai ymgyngoreion, ac mae'r cynllun yn dod i rym ar ôl cael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Wrth gydnabod annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n egwyddor sylfaenol nad yw Llywodraeth Cymru'n pennu'r ffordd mae'r Archwilydd yn cyflawni'i ddyletswyddau na'r ffioedd archwilio.

Efallai yr hoffech nodi fodd bynnag, fel y dywedodd yr Archwilydd yn ei God Ymarfer Archwilio diweddaraf, ei fod wedi mabwysiadu'r egwyddor bod "rhaid rhoi sylw priodol i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol penderfyniadau ac

adroddiadau integredig cyrff a archwilir wrthgyflawni gwaith archwilio" o fewn y pum egwyddor sy'n sail i waith archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf, cadarnhaodd yr Archwilydd ei fod yn ceisio "cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o’r iaith Gymraeg".

**Adroddiad PricewaterhouseCoopers / Costau newid diwylliant**

Dan y pennawd hwn gofynnwyd am amcangyfrifon o gostau gweithredu newidiadau diwylliannol mewn cyrff cyhoeddus a enwir. Rwyf am adleisio'r geiriau yn adroddiad PwC sy'n dweud bod argymhellion Comisiwn Williams a darpariaethau'r Bil yn rhoi cyfle unigryw i ddeddfu am newid mewn ymddygiad o ran datblygu cynaliadwy, a chyflwyno ffordd o sicrhau bod yr ymddygiad hwn yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn dweud y gallai Bil Cenedlaethau'r Dyfodol gynnig yr urddas a'r cymorth angenrheidiol i danio'r lefel o newid a nodir gan Gomisiwn Williams gan gydnabod, er bod nifer o sefydliadau o'r farn bod modd iddynt newid eu hymddygiad eu hunain, bod angen deddfu o bosibl i gyflymu ac ehangu'r broses.

Mae'n anodd pennu costau newid ymddygiad a diwylliant, yn arbennig gan fod y ffactorau perthnasol yn aml yn niferus ac yn dibynnu ar ei gilydd. Ymysg y ffactorau hyn mae'r arwyddion y mae'r dyletswyddau deddfwriaethol yn y Bil yn eu hanfon, yr esiampl sy'n cael ei gosod a'r negeseuon sy'n cael eu rhaeadru gan arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus (Gweinidogion y Llywodraeth, Aelodau'r Cynulliad a Phrif Weithredwyr), rhaglenni hyfforddi ffurfiol ar gyfer arweinwyr a swyddogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddarparu cyngor, cymorth a her.

O ran arweinyddiaeth, rwy'n cytuno ag adroddiad PwC sy'n dweud bod swyddogaeth arweinyddiaeth yr un mor bwysig ar draws strwythurau gweithredol a gwleidyddol. Mae hefyd yn dweud o safbwynt risg nad yw diwylliant sefydliadau, er yn gymhleth, yn rhwystr o reidrwydd rhag newid, os yw'r ymroddiad, cyfeiriad ac arweinyddiaeth yn ddigon clir.

Wrth ochr y Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi agenda cyflawni ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn "Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru" sy'n gosod ein gweledigaeth ac yn disgrifio'r camau ategol y byddwn yn eu cymryd i wella'r gwaith o lywodraethu a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

O ran hyfforddi a hwyluso'r newid, cyfrifoldeb Academi Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fydd sicrhau bod ein harweinwyr, heddiw ac yn y dyfodol, yn deall yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Bil yn iawn. Er enghraifft bydd hyn yn golygu mewn rhai achosion aildrefnu ein rhaglenni arweinyddiaeth presennol gan ddefnyddio’r dulliau gweithredu llywodraethu sydd wedi’u gosod yn y Bil i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni’r amcanion sy'n cael eu gosod gan y sector cyhoeddus. Bydd yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu ar gyfer hyn yn cael eu gosod fel rhan o'r rhaglen diwygio gwasanaeth ehangach.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd wneud argymhellion i gorff cyhoeddus ynghylch ffyrdd o gymryd camau i gyflawni eu nodau llesiant mewn ffordd sy'n gyson

â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.  Mae costau hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (tudalennau 99 - 103).